# Cyngor Dinas Bangor

## Cofnodion y Pwyllgor Asedau

Dydd Llun 13eg Ebrill 2026, Neuadd y Penrhyn, 17.30

**Presenoldeb**

| | |
|---|---|
| **Cynghorwyr:** | Cyng: Gareth Parry (Cadeirydd), Medwyn Hughes, Gwynant Roberts, Elin Walker-Jones, Delyth Russell |
| **Swyddogion:** | Martin Hanks, Cyfarwyddwr Dinesig, Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol<br>Lisa Goodier, Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig<br>Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol |
| **Eraill:** | Sioned Jones, Cyfieithu |
| **Ymddiheuriadau:** | Cygn: John Wyn Williams, Nigel Pickavance, Dylan Fernley, Jackie Spence |

---

Dechreuodd y cyfarfod am 17.30.

**27/25 Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr: Jackie Spence, Charles Dylan Fernley, Nigel Pickavance a John Wyn Williams.

**28/25 Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:**

Dywedodd y Cynghorydd Delyth Russell ei bod yn datgan buddiant (nad oedd yn fuddiant ariannol nac yn fuddiant personol) yn Eitem (4): *Gwneud argymhelliad ynghylch Canolfan Gymunedol Maesgeirchen*, gan ei bod ar hyn o bryd yn gyfarwyddwr Maes Ni CLG, y sefydliad sy'n rhedeg yr adeilad uchod.

Cytunwyd na fyddai'r Cynghorydd Russell yn cyfrannu at y trafodaethau nac yn pleidleisio ar unrhyw faterion sy'n ymwneud ag Eitem (4).

Cwblhawyd Ffurflen Datganiad o Fuddiant yn briodol a'i chyflwyno i'r Cadeirydd gan y Cynghorydd Russell.

**29/25 Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 19 Ionawr 2026:**

Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai gwir a chywir.

**Cynigwyd gan:** y Cynghorydd Gwynant Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Medwyn Hughes, a derbyniwyd gan y Cyngor.

**30/25 Gwneud argymhelliad ynghylch Canolfan Gymunedol Maesgeirchen:**

Cytunodd y Cynghorwyr nad oedd digon o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylai Cyngor Dinas Bangor gymryd drosodd yr adeilad. Cytunodd y Cynghorwyr hefyd y dylid trafod y mater gan y Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd:**
Bod y Clerc i lunio Cynllun/Achos Busnes i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn ystyried yn llawn y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chaffael yr ased hwn.

**31/25 Trafod cynlluniau dylunio cychwynnol ar gyfer y tir ar Ffordd Farrar:**

- Ar ôl adolygu'r cynlluniau drafft a gynhyrchwyd gan y dylunydd (a ariannwyd gan grant gan Gyngor Gwynedd), roedd y Cynghorwyr o'r farn nad oedd dim yn cysylltu'r gofod hwn â chyn gae pêl-droed Dinas Bangor, a arferai feddiannu'r tir hwn. Dylai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol adlewyrchu ei etifeddiaeth bêl-droed.

- Holodd y Cynghorwyr am gost cynnal a chadw'r tir. Ymatebodd y Clerc drwy ddweud bod yn rhaid i unrhyw ddyluniad sicrhau'r costau cynnal a chadw lleiaf posibl.

- Gofynnodd y Cynghorwyr i'r Clerc ganfod a fyddai archfarchnad Asda yn cyfrannu at y prosiect gan y byddai ei ffin nhw yn elwa hefyd.

- Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal hyd yma gyda thrigolion lleol, a bod cyfle i wneud hynny.

**Penderfynwyd:**
I'r Clerc gael rhagor o gynlluniau dylunio ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaethau gydag archfarchnad Asda, i'w cyflwyno i'r Pwyllgor.

**32/25 Trafod cynlluniau cychwynnol ar gyfer y tir ar Ffordd Sackville:**

Mynegodd y Cynghorwyr bryder ynghylch yr ardal 'tir corsiog' yn y dyluniad presennol, oherwydd y gofynion cynnal a chadw parhaus posibl a'r potensial i'r ardal fynd yn wlypach yn ystod tymor y Gaeaf. Datganodd Swyddog y Cyngor, Carwyn Davies, y byddai'r lloches bws bresennol yn aros, ac y byddai'r gofod â mynediad agored, heb ffensys, er mwyn lleihau gofynion cynnal a chadw. Holodd y Cynghorwyr a ellid ail-osod ffynnon garreg, a oedd wedi'i lleoli yn y gofod hwn yn flaenorol (ac wedi'i hadleoli i ran arall o Fangor), yn ei lleoliad gwreiddiol.

**Penderfynwyd:**
I'r Clerc gyflwyno cynlluniau mwy o ddyluniadau manwl i'r pwyllgor er mwyn cefnogi trafodaethau pellach.


Enw Cadeirydd: ..........................

**33/25 Trafod y cofnod gweithredu asedau:**

- **Clwb ceir trydan:** Mae un slot wedi'i ddyrannu ym maes parcio'r Pier.
- **Coed Menai:** Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried gwaredu'r tir hwn oherwydd cost uchel barhaus gwaith brys, sy'n hanfodol gan ei fod yn ffinio â'r rheilffordd a'r brif ffordd.
- **Llochesi bysiau:** Mae'r llochesi ar Heol y Traeth a Maestryfan wedi'u difrodi; a ellir eu hatgyweirio. Hefyd, a ellir ymchwilio i gost paneli solar ar gyfer goleuo er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd diogelu i ddefnyddwyr? (A oes polisi ar gyfer adnewyddu llochesi bysiau a gofynion diogelu?).

**Penderfynwyd:**

I'r Clerc edrych i mewn i'r polisïau sy'n ymwneud ag adnewyddu llochesi bysiau ac unrhyw ystyriaethau diogelu, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am: 18.39.**

**Llofnodwyd gan:** ……………………………………………

**Dyddiad:** ……………………………………………